

Fy nghyf / My ref:

Llinell Uniongyrchol /  
Direct Line: 01267  
246522

Dyddiad / Date:  
24 Chwefror 2021  
24 February 2021

### Taliadau Prydau Ysgol am Ddim

Os oes gan eich plentyn hawl i gael prydau ysgol am ddim, byddwch yn derbyn taliad o £19.50 y plentyn yr wythnos yn ystod y canlynol:

- Gwyliau ysgol
- Os yw eich plentyn dan gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i aros gartref am gyfnodau heblaw gwyliau ysgol\*
- Os yw eich plentyn dan gyfarwyddyd i hunanynysu oherwydd achos positif o COVID-10 yn ei ysgol

\*Bydd taliadau'n parhau ar gyfer pob disgybl (gan gynnwys disgyblion y Cyfnod Sylfaen) tan ddiwedd tymor y gwanwyn.

Mae angen i chi [wneud cais ar-lein](#) i dderbyn y taliad hwn. Os ydych eisoes wedi gwneud cais am daliadau prydau ysgol am ddim ac wedi derbyn y taliadau hynny, NID oes angen i chi wneud cais eto.

Fodd bynnag, os oes gennych ragor o blant sydd wedi dechrau yn yr ysgol neu os yw eich manylion banc wedi newid mae angen i chi anfon e-bost atom.


Ar gyfer plant ychwanegol sydd wedi dechrau yn yr ysgol ers hynny, anfonwch e-bost i [PrydauYsgolamDdim@sirgar.gov.uk](mailto:PrydauYsgolamDdim@sirgar.gov.uk) gan nodi'r manylion. Bydd angen i chi ddarparu enw eich plentyn, ei ddyddiad geni ac enw ei ysgol yn ogystal â'ch rhif Yswiriant Gwladol chi.

Os yw'r manylion banc a roddwyd i ni o'r blaen wedi newid, anfonwch e-bost i [FSMBankDetails@sirgar.gov.uk](mailto:FSMBankDetails@sirgar.gov.uk) gan nodi'r newidiadau. Bydd angen i chi roi copi o gyfriflen banc ddiweddar neu ffotograff o'ch cerdyn banc (cyn belled â'i fod yn dangos eich enw, côd didoli a rhif cyfrif - nid yw cardiau Natwest a rhai cardiau banc eraill yn dangos hynny). Oni bai ein bod yn cael gwybod am newidiadau, bydd taliadau'n cael eu gwneud i'r manylion banc sydd gennym ar hyn o bryd.

Prydau Ysgol am ddim

Os yw eich amgylchiadau wedi newid sydd wedi effeithio ar incwm eich aelwyd, efallai y byddwch yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. I gael rhagor o wybodaeth ac i wneud cais ewch i'n [gwefan](#).

Yn gywir



Gareth Morgans  
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

**Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc**

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,  
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Director of Education & Children's Services,  
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

**Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc**

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,  
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Director of Education & Children's Services,  
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English